

# Cysylltiadau Gofal Plant



## CYLCHLYTHYR AR GYFER DARPARWYR GOFAL PLANT

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Cysylltiadau Gofal Plant, cylchlythyr ar gyfer darparwyr gofal plant yn Nhorfaen.

Byddem yn falch i gynnwys eich straeon a'ch cyflawniadau, felly anfonwch nhw at eich Swygddog Datblygu Gofal Plant, Aimee, Jo neu Danielle, os gwelwch yn dda.

Gallwch gysylltu â ni gyda sylwadau neu gwestiynau ar 10633 648114 / 648115 neu ar e-bost:

[aimee.priest](mailto:aimee.priest@torfaen.gov.uk)

[@torfaen.gov.uk](mailto:@torfaen.gov.uk)

[joanna.forward](mailto:joanna.forward@torfaen.gov.uk)

[@torfaen.gov.uk](mailto:@torfaen.gov.uk)

[danielle.nicke](mailto:danielle.nicke@torfaen.gov.uk)

[@Torfaen.gov.uk](mailto:@Torfaen.gov.uk)

### Cymraeg ar gyfer Gofal Plant - archebwch eich lleoedd

Efallai bod rhai ohonoch wedi gweld a manteisio ar y cyrsiau iaith Gymraeg sylfaenol a chanolradd AM DDIM a gynigwyd yn ddiweddar gan Bartneriaeth Cwlwm ac a ariennir gan Dorfaen. Mae rhaglen hon, sy'n ddifyr, hamddenol a rhyngweithiol wedi'i hanelu at bob ymarferydd gofal plant o gynorthwyr meithrin i weithwyr chwarae a gwarchodwyr plant, ac mae'n cynnwys yr holl sgiliau sydd eu hangen i ymgorffori'r Gymraeg ymhob agwedd ar waith o ddydd i ddydd.

Dyma'r rownd nesaf o ddyddiadau (arfaethedig) :

27 Ebrill – 6.15pm – 8.15pm (Y Dafarn Newydd)

4 Mai – 6.15pm – 8.15pm (Y Dafarn Newydd)

11 Mai – 6.15pm – 8.15pm (Y Dafarn Newydd)

18 Mai – 6.15pm – 8.15pm (Y Dafarn Newydd)

Penwythnos - canolradd – Sadyrnau

29 Ebrill – 9.30am – 1.45pm (Y Dafarn Newydd)

6 Mai – 9.30am – 1.45pm (Y Dafarn Newydd)

Gellir teilwra hyfforddiant canolradd i weddu i anghenion y lleoliad- i gadarnhau'r dyddiadau a chadw eich lle, cysylltwch â Jane Lolin ar 01633 647423 neu [jane.lolin@torfaen.gov.uk](mailto:jane.lolin@torfaen.gov.uk)

## Pwysig – Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) Gofal Plant rhan dau

Bydd AGGCC yn anfon e-bost i bob darparwr gofal plant yn y dyfodol agos i roi dyddiad ar gyfer pryd y bydd SASS rhan dau yn digwydd. Bydd SASS rhan dau cynnwys Adolygiad Ansawdd Gofal a nifer o gwestiynau eraill, i gyd gan ddefnyddio AGGCC ar-lein.

### Cyngor i ddarparwyr

I baratoi, gall darparwyr ddechrau sicrhau bod eu Datganiad o Ddiben wedi ei diweddarau, a bod adborth wedi ei dderbyn gan ddefnyddwyr y gwasanaeth-rieni / gofalwyr a phlant.

Os nad ydych wedi cyflwyno'r SASS neu wedi cwblhau rhan un yn rhannol, bydd angen i chi ei gwblhau ar yr un pryd â'r SASS rhan dau, ym mis Mai. **Ni allwch wneud unrhyw beth ar-lein nawr.** Ni fydd AGGCC yn gallu derbyn rhan un SASS sy'n hwyr cyn mis Mai.

### Gwefan

Bydd AGGCC yn postio gwybodaeth ar eu gwefan a hynny'n dilyn yn fuan yr e-bost y bydd darparwyr yn ei dderbyn. Bydd y wefan yn cael ei diweddarau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i sicrhau bod yna wybodaeth berthnasol yno i ddarparwyr. Edrychwch yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf.

## Ydych chi'n barod am Ofal Plant Di-dreth?

Mae darparwyr gofal plant ar draws y DU yn cofrestru i dderbyn cynnig newydd llywodraeth y DU: Gofal Plant Di-dreth. I gofrestru, dylai darparwyr gofal plant fynd i [www.childcare.tax.service.gov.uk](http://www.childcare.tax.service.gov.uk) a bydd angen arnynt:

- Y cod unigryw sydd wedi ei nodi yn eu llythyr gwahoddiad.
- Manylion y cyfrif banc y maent yn dymuno ei ddefnyddio i dderbyn taliadau.
- Rhif Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw (UTR) – neu eu Rhif Yswiriant Gwladol, os nad oes ganddynt UTR.

### Wedi colli neu fethu dod o hyd i'r llythyr cofrestru?

Os na wnaethoch ei dderbyn, neu os ydych wedi colli eich llythyr, cysylltwch â'r llinell gymorth gwasanaeth gofal plant ar 0300 123 4097.

### Rheoli eich cyfrif

Mae'n gyflym a hawdd i reoli eich cyfrif. Gallwch ei ddefnyddio i ddiweddarau'ch manylion banc neu eich gwybodaeth dirprwy. Os nad ydych am redeg eich cyfrif gallwch ganiatáu i rywun arall gael mynediad iddo (eich dirprwy), fydd yn medru rheoli'ch cyfrif ar eich rhan.

### Sut y gall rhieni ddod o hyd i chi

Unwaith y byddwch wedi cofrestru i dderbyn Gofal Plant di-dreth, gall rhieni ddefnyddio'r gwiriwr darparwr gofal plant i chwilio ar eich cyfer, gan ddefnyddio'ch:

- Enw
- Cyfeiriad neu god post
- Rhif Cofrestru AGGCC

### Sut y gall rhieni fynd ati i'ch talu

Gall rhieni ddefnyddio eu cyfrif gofal plant i wneud taliadau rheolaidd neu dalu unwaith yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc. Dylai'r taliad gymryd 2-3 diwrnod gwaith yn unig i gyrraedd eich cyfrif. Pan fyddwch yn derbyn taliad gan riant bydd hyn yn cynnwys eu taliad a'r cyfraniad gan y llywodraeth.

Mae gan Daliadau Gofal Plant Di-dreth gyfeirnod sy'n cynnwys 4 llythyren a 5 rhif, i'w dilyn gan 'TFC'. Mae'r llythrennau yn cynnwys llythyren gyntaf enw cyntaf a 3 llythyren gyntaf cyfenw'r riant sy'n gwneud y taliad. Er enghraifft, AJON12345TFC. Bydd hyn yn eich helpu i gysylltu'r taliad i'r plentyn yr ydych yn darparu gofal plant ar ei gyfer.

I gael mynediad at wybodaeth i rieni ewch i:

<https://www.gov.uk/government/news/tax-free-childcare-10-things-parents-should-know>

## Cyfreithiau Newydd ar Ddiogelwch mewn Ceir

**Seddau Ceir a Seddau Clustog.** Mae'r gyfraith newydd a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2017 yn golygu:

\* Rhaid bod cefn ac ochrau gan unrhyw sedd glustog **newydd** i blant hyd at 135cm o daldra neu sy'n pwysu hyd at 22kg.

\* Os ydych yn defnyddio sedd glustog heb gefn eisoes ar gyfer plant sy'n pwysu o leiaf 15kg, gallwch barhau i'w defnyddio - mae'r newid cyfraith yn berthnasol i seddau newydd.

Pan fyddwch yn cludo plant yn eich car, rhaid i chi sicrhau eu bod wedi'u diogelu'n ddigonol. Bydd defnyddio'r sedd car cywir ar gyfer eu taldra a'u pwysau yn helpu i'w diogelu pe byddai damwain.

I gael mwy o fanylion ewch i: <https://www.gov.uk/child-car-seats-the-rules>

### Defnyddio eich ffôn tra eich bod yn gyrru

Mae cosbau newydd wedi cael eu cyflwyno, sy'n dyblu'r ddirwy am ddefnyddio ffôn wrth olwyn car i 6 phwynt ar eich trwydded a dirwy o £200.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio eich ffôn pan fyddwch wedi stopio wrth oleuadau traffig neu wrth giwio mewn traffig.

## #TrafodGofalPlant - Y Cynnig Gofalplant i Gymru

Bwriadwn ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru sydd a rhieni mewn gwaith. Bydd y cynnig ar gael hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd eich hawliad addysg gynnar yn rhan o'r cynnig hwn.

Bydd y cynnig yn cael ei brofi mewn rhai ardaloedd o fewn awdurdodau lleol o fis Medi 2017. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio i rieni ac i ddarparwyr. Bydd y cynnig gofal plant am ddim, ar gael i rieni cymwys, ar draws Cymru, unwaith iddo gael ei ddatblygu.

Gallwch ddysgu mwy am y cynnig gofal plant drwy ymweld a'n tudalen ar wefan Llywodraeth Cymru.

[www.llyw.cymru/trafodgofalplant](http://www.llyw.cymru/trafodgofalplant) - Edrychwch allan am yr hashnod ac ymunwch a'r drafodaeth ar-lein.